Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

newsletter

Gaeaf 2011-12

Dadansoddi a Hysbysu

Arolygu ecosystemau; canfod achosion ac effeithiau llygredd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- Fflapiau llanwol ar gyfer llyswennod
- Cadw golwg ar dorgochiaid Llyn Padarn
- Ymchwiliadau CFfD
- Ymchwiliad Blaenau Dyfrdwy

Fflapiau llanwol ar gyfer llyswennod
Buom wrthi'n gweithio â'r tîm cyflawni gweithrediadau a'r tîm asedau er mwyn hwyluso ymfudiad llyswennod. Mae'r timau bellach yn defnyddio'r fflapiau llanwol a welwch yma, y gall llyswennod nofio heibio iddynt. Mae bwi bach yn dal y fflap ar agor cyn i bwysau'r llanw ei gau.

Cadw golwg ar dorgochiaid Llyn Padarn
Buom yn gweithio â'r tîm asesu pysgodfeydd er mwyn cadw golwg ar dorgochiaid Llyn Padarn, gan ddefnyddio DIDSON a sawl camera tanddwr er mwyn gweld eu silio nhw yn Afon y Bala. Mae nifer y pysgod sy'n silio'n isel anghyffredin ar hyn o bryd: credwn mai dylanwad y tywydd mwyn sydd i'w feio.

Torgoch Llyn Padarn

Fflap llanwol ar gyfer llyswennod

Ymchwiliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
Bwriadwn gynnal 15 ymchwiliad i ragnentydd methiannus ledled gogledd Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ag aelodau tîm Rheoli'r amgylchedd er mwyn edrych ar ansawdd dŵr Llugwy a Lledr. Hynny er mwyn gweld a yw dŵr asidaidd a metelau'n peri problemau yn y dalgylchoedd hyn.

Blaenau Dyfrdwy – Archwiliad CFfD
Rydym yn cynnal cynllun ymchwilio i fethiannau pysgodfeydd CFfD yn y rhagnentydd uwchlaw llifddorau'r Bala. Golyga hyn ymchwilio i'w heffeithiau ar ymfudiad, goroesiad pysgod a stociwyd, ac arolygu pysgod ifainc am dair blynedd. Nid ychwanegwyd llawer at boblogaeth eogiaid rhagnentydd blaenau Dyfrdwy. Roedd digon o frithyllod uwchlaw rhwystrau naturiol ar y rhagnentydd hyn, felly nid ansawdd y dŵr sydd ar fai.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	**Bob Edwards**	**Swydd**	**Arweinydd y Tîm Dadansoddi a Hysbysu**
Ffôn	**01248 484010**	**E-bost**	**Bob.Edwards@environment-agency.gov.uk**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

newsletter

Gaeaf 2011-12

Troseddu Amgylcheddol

Lleihau troseddau pysgota a gwastraff yng ngogledd Cymru.

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- **Amharu ar Bysgod sy'n Silio**
- **Gorfodi'r Gyfraith Gocosa**

Amharu ar bysgod sy'n silio

Yn Nhachwedd 2011, yn dilyn derbyn gwybodaeth gan y cyhoedd, daliodd Swyddogion Troseddu Amgylcheddol ddau ddyn yn amharu'n anghyfreithlon ar bysgod un o ragnentydd Dyfrdwy.

Gwelodd y swyddog ddau'n lampio rhan o'r afon am 25 munud cyn gadael yn eu cerbyd. Ataliwyd hwnnw gan Heddlu gogledd Cymru a holwyd y dynion gan Swyddogion Troseddu Amgylcheddol. Atafaelwyd dwy lamp a batris y dynion, a hysbyswyd yr heddlu yn eu cylch am droseddau pysgodfeydd. Mae gorfodi'r gyfraith ar y gweill.



Eog yn ymfudo i fyny afon

Llun hofrennydd o gocoswyr anghyfreithlon

Gorfodi'r gyfraith gocosa

Yn Rhagfyr 2011 aeth y tîm Troseddu Amgylcheddol, â chymorth Heddlu Gogledd Cymru, i'r afael â chocosa anghyfreithlon yn aber Dyfrdwy, a hynny sawl gwaith.

Yn ystod y cyrchoedd hyn arestiwyd 10 dyn ar yr amheuaeth eu bod yn cocosa'n anghyfreithlon. Holwyd hwy, ac atafaelwyd offer cocosa troseddol, gan gynnwys cerbyd, dau drelar, dwy injan cwch, offer cocosa a chocos a gasglwyd yn anghyfreithlon. Mae gorfodi'r gyfraith ar y gweill.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	**Dylan Williams**	**Swydd**	**Team Leader**
Ffôn	**01248 484090**	**E-bost**	**Dylan.williams@environment-agency.gov.uk**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

newsletter

Gaeaf 2011-12

Pysgodfeydd Technegol

Cynnal a gwella pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf

- **Cynllun mapio Pysgota Gwyllt Cymru**
- **Cymorthfeydd pysgodfeydd dalgylchoedd**
- **Grwpiau gweithgareddau awyr-agored**
- **Bachau Cylchog**

Cynllun mapio Pysgota Gwyllt Cymru

Yn rhan o gynllun Pysgota Gwyllt Cymru, mae clybiau pysgota'n cael cynnig cyfle i gael cynhyrchu mapiau rhad ac am ddim o'u dyfroedd nhw. Os hoffai unrhyw glwb weld mapio'u dyfroedd, cysylltwch â joel.rees-jones@environment-agency.wales.gov.uk

Mae Pysgota Gwyllt Cymru'n fenter Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a ran-ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, ac y mae'n rhan o gynllun strategol Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Cymorthfeydd Pysgodfeydd Dalgylchoedd

Cynaliasom 11 cymhorthfa pysgodfeydd yn 13 clwb/cymdeithas enweirio ledled gogledd Cymru yn Nhachwedd 2011. Trafodasom faterion pysgodfeydd yn y cymorthfeydd, gan gofnodi 80 gweithred. Roedd tua dwy ran o dair o'r gweithredoedd cofnodedig i Asiantaeth yr Amgylchedd ddelio â nhw erbyn diwedd Mawrth 2012.

Dyma fachyn tro



Enghraifft o fap pysgodfa

Grwpiau gweithgareddau awyr-agored

Bu gweithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n rhoi cyflwyniadau i grwpiau awyr-agored yng ngogledd Cymru. Mae'r cyflwyniadau a groesawyd gan ganolfannau a chymdeithasau awyr-agored wedi codi ymwybyddiaeth o adegau pwysig o'r flwyddyn pan fo eogiaid a brithyllod mudol yn dodwy yng ngraeanau afonydd.

Bachau Tro

Cyhoeddasom ffeithlen ynghylch bachau tro yn Ardal y Gogledd er mwyn hybu a chynghori genweirwyr ynglŷn â'u defnyddio. Cyhoeddwyd y ffeithlen gan ymateb i ymholiad adeg cyfarfod diweddar â genweirwyr Cyfundeb Clwyd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	**Julian Bray**	**Swydd**	**Arweinydd Tîm Pysgodfeydd Technegol**
Ffôn	**01248 484085**	**E-bost**	**Julian.Bray@environment-agency.gov.uk**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

newsletter

Gaeaf 2011-12

Pysgodfeydd Technegol

Cynnal a gwella pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- Rhaglen torgochiaid
- Dal celtiaid gan enweirwyr
- Dosbarthiad Cimwch yr Afon Americanaidd
- Graeanau Mawddach

Rhaglen torgochiaid

Fis Hydref 2011 darfu inni ollwng 800 torgoch i Lyn Padarn er mwyn atgyfnerthu'r boblogaeth bresennol. Cafodd Crafnant 1,600 torgoch er mwyn parhau i ddatblygu poblogaeth "wrth gefn", ac yn ystod Rhagfyr ac Ionawr casglasom 3,000 o wyau torgochiaid aeddfed i'w magu ar gyfer eu rhyddhau fis Hydref nesaf.

Torgochiaid

Dal celtiaid gan enweirwyr

Y llynedd rhoddodd genweirwyr Bangor Iscoed gymorth inni ddal 5 celt eog, yn rhan o'r arbrawf ail-gyflyru'r pysgod i gynhyrchu wyau hyfyw yn ein deorfa ni ym Maerdy. Bu'r arbrawf yn llwyddiannus, a chynhyrchwyd 17,000 wy ar gyfer rhaglen lliniaru Dyfrdwy.

Grwynau graean Mawddach

Dosbarthiad Cimwch yr Afon Americanaidd

Mae cimwch yr afon Americanaidd ar gynnydd yn afonydd gogledd Cymru. Maen nhw'n effeithio ar boblogaethau pysgod trwy fwyta pysgod ifainc, felly mae gennym ddiddordeb mewn olrhain eu hymlediad nhw hyd holl afonydd y gogledd, yn enwedig uwchlaw Rhaeadr Llantysilio ar Ddyfrdwy. Os gwelwch un, cofiwch y man, y dyddiad a faint ohonynt sydd yno, yna galwch ein gwasanaethau cwsmeriaid ni ar 03708 506 506 a gofynnwch am air â swyddog bioamrywiaeth lleol.

Graeanau Mawddach

Cynhaliwyd cynllun pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer sefydlu mannau silio eogiaid ym Mawddach. Gosodwyd cyfres o rwynau coed a meini sy'n wynebu at i fyny'r afon, lle gall graeanau silio grynhoi ar gyfer pysgod. Hyn er mwyn gwneud iawn am golli graean wedi llifogydd 2001.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	**Julian Bray**	**Swydd**	**Arweinydd Tîm Pysgodfeydd Technegol**
Ffôn	**01248 484085**	**E-bost**	**Julian.Bray@environment-agency.gov.uk**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

newsletter

Gaeaf 2011-12

Magu Pysgod

Lliniaru difrodi pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- Defnyddio pariad rhagaedddfed
- Oviprim yu ysgogi pysgod I silio ym Maerdy
- Deorfa arbrofol fach Celyn
- Lleihau sylweddol yn syndrome y rhefr coch

Defnyddio pariaid rhagaeddfed i ffrwythloni wyau

Yr hydref diwethaf ffrwythlonwyd cyfran o stoc cynlluniau magu Dyfrdwy, Mawddach, Seiont a Chonwy â phariaid rhagaeddfed ifainc. Ar gyfer pob un afon neilltuol, ffrwythlonwyd rhwng 20-30% o gyfanswm y wyau â'r eogiaid gwryw ifainc hyn. Cedwir yr wyau ar wahân i rai a ffrwythlonwyd ag eogiaid aeddfed yn y deorfeydd, er mwyn arolygu a chymharu cyfraddau goroesi deoriad.

Oviprim yn ysgogi pysgod i silio ym Maerdy

Er mwyn cynorthwyo ag amseru ein gweithgareddau tynnu wyau ni, chwistrellwyd 5 hwyfell ag Ovaprim. Mae'r cymysgedd *in vitro* hormonaidd hwn yn caniatáu inni ddatblygu silwyr hwyr er mwyn cydlynu aeddfediad yn ystod y tymor silio yn y ddeorfa. Nid yw Oviprim yn effeithio ar na hyfywedd na ffrwythlondeb wyau.

Pariaid rhagaeddfed

Enghraifft o'r rhefr coch mewn pysgodyn eogffurf aeddfed

Deorfa arbrofol fach Celyn

Sefydlwyd deorfa fach islaw argae Celyn, ag 800 o wyau eogiaid yn agos at safle'r Ganolfan eogiaid newydd arfaethedig. Yno cadwn olwg ar gyflwr a goroesiad yr wyau eogiaid a'r silod a fegir yno, er mwyn gweld a yw'r ffynhonnell ddŵr ar gyfer y Ganolfan eogiaid newydd arfaethedig o safon digon uchel ar gyfer magu eogiaid.

Lleihau sylweddol yn syndrom y rhefr coch

Gwelwyd llai o syndrom y rhefr coch yn stoc magu eleni. Achosir y syndrom gan y nematod Anisakis simplex, ac fe'i ceir yn gyffredin yng ngofod cyrff pysgod morol. Os gwelwch achos yn y dyfodol, galwch y Gwasanaeth Technegol Pysgodfeydd ar 01480 483802.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	Keith Scriven	**Swydd**	Arbenigwr Technegol – Magu Pysgod
Ffôn	07917072573	**E-bost**	keith.scrivens@environment-agency.gov.uk